



AM GWM TRECŴN

OEDDECH CHI'N GWYBOD?

- Yn y cyfnod cyn y Normaniaid, roedd Trecŵn yn Nheyrnas y Deheubarth, yng Nghantref Pedidiog ac yng Nghwmwd Pen-caer.
- Dylanwadodd teulu Barham ar natur Trecŵn a'i ddaliadau tir. Roedd y teulu Barham yn berchen ar stadau mawr yn Jamaica ac yn byw yn y plas yn Nhrecŵn. Ymhlith aelodau dylanwadol y teulu roedd Joseph Foster Barham (1759-1832) AS dros Stockbridge a Charles Henry Foster Barham* (1808-1878) AS Appleby. Dechreuwyd a chynhaliwyd yr ysgol wreiddiol yn Nhrecŵn gan Elizabeth Maria Barham (gwraig Charles Barham) a sefydlwyd Ysgol Barham er cof amdani yn 1877. Caeodd yn 2001 pan ostyngodd nifer y plant wedi eu cofrestru yn dilyn datgomisiynu'r Depo a cholli swyddi o ganlyniad.
- Adeiladwyd Eglwysi bren gan garcharorion rhyfel Eidalaedd yn Nhrecwn, Henllan yn Sir Gaerfyrddin ag ar Ynys Lamb Holm o fewn Ynysoedd Erch. Ar wahan i Drecwn, mae'r ddwy Eglwys arall yn agored i ymwelwyr a pharhau fel adeiladau sylweddol.
- Adeiladwyd y siambrau helaeth yn Nhrecŵn, a adeiladwyd i storio arfau yn ddiogel, gan y peirianwyr sifil Edmund Nuttall Sons and Co., Manceinion.

*Bu Charles farw yn Nhrecŵn yn 1878 yn dilyn cyfnod hir o afiechyd a gadawodd y rhan fwyaf o'i gyfoeth personol i'w weddw. Roedd yn berchen ar ffermydd a chwareli yn Buckett, Barnard's Well, Cilglynau, Henry's Moat, Llanstinian, Maenclochog, Revel Fach a Temple Druid.

